

Ffydd yn y Senedd

Yn dilyn etholiadau diweddar Senedd Cymru, mae Aled Davies yn agor trafodaeth ar le ffydd a chyfraniad Cristnogion ym mywyd y Senedd.

Do, er gwaetha bygythiad COVID-19, llwyddwyd i gynnal etholiad ddechrau mis Mai, a chafodd pob plaid gyfle ymlaen llaw i hyrwyddo'u manifestos a'u cynlluniau am y pum mlynedd nesaf. Longyfarchiadau gwresog i bob un aelod a etholwyd, yn aelodau profiadol a rhai newydd, a dymunwn yn dda iddynt oll wrth iddynt geisio arwain a llywio dyfodol ein gwlad dros gyfnod y tymor seneddol newydd.

Wrth edrych ar deitl yr erthygl, sef 'Ffydd yn y Senedd', gellid yn hawdd ei ddehongli fel cwestiwn sy'n holi a oes gennym ffydd yn y Senedd o ran ei gwerth a'i gallu i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru. Yn wir, roedd sawl plaid yn sefyll yr etholiad y tro yma gyda'r addewid y byddent yn dileu'r Senedd ac yn adfer pob grym yn ôl i Lundain. Bu honno'n drafodaeth ers dros 20 mlynedd, ac yn y gorffennol yr oedd gan bleidiau fel UKIP bresenoldeb dylanwadol yn y Senedd yn gwthio'r agenda honno. Ond os dangoswyd un peth yn glir yn yr etholiad diweddar, gwelwyd y safbwynt hwnnw'n cael ei wrthod yn llwyr gan y pleidleiswyr. A dyfynnu'r sylwebydd gwleidyddol Richard Wyn Jones, 'Mae pobl Cymru wedi datgan eu ffydd nhw yn y broses o ddatganoli ac yn y Senedd. Er bod opsiwn credadwy i ddiddymu'r holl beth, mae hwnna wedi marw ar ei din erbyn hyn.'

Ond prif bwrpas yr erthygl hon yw ystyried rôl ffydd, ac yn arbennig Cristnogaeth, ym mywyd a gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'n debyg i nifer deimlo ers amser nad oedd 'derbyniad' i ddaliadau ffydd, a bod ymgais fwriadol gan lywodraeth i fod yn niwtral a hollgynhwysol i'r graddau nad oedd siarad o safbwynt unrhyw grefydd na chred yn dderbyniol a ffasiynol.

Bu'r Dyneiddwyr, er mai lleiafrif bychan iawn ydynt o ran nifer, yn llafar iawn am weld dileu pob sylw at gred a ffydd. Bydd eraill yn ein hatgoffa bod llawer o 'egwyddorion' sylfaenol Cristnogaeth ynghylch cyfiawnder a thegwch yn rhinweddau sy'n perthyn i rai nad ydynt yn arddel unrhyw gred, a'i bod yn bwysig i'r rhai hynny ohonom sy'n arddel ffydd gofio hynny hefyd. Ond mae'n anodd iawn gweld y gwerthoedd hynny ym manifestos pleidiau fel UKIP, sydd am gyfyngu'n sylweddol ar ryddid a hawliau ffoaduriaid ac sydd am ddileu'r holl gymorth ariannol a gyfrennir gan ein gwlad tuag at gynnal gwledydd tlotaf ein byd, a lle mae'r pwyslais ar roi'r 'hunan' a 'ni ein hunain' yn gyntaf bob tro. Diolch i'r drefn fod plaid UKIP a'i gwerthoedd di-hid am eraill wedi cael eu sgubo allan yn llwyr o'r Senedd erbyn hyn.

Beth felly yw sefyllfa a statws ffydd yn y Senedd? Does dim adeilad capel na stafell weddi o fewn y Senedd o gwbl, yn wahanol i San Steffan. Does dim capel nac eglwys chwaith ym Mae Caerdydd erbyn



Y tri arweinydd ar ddechrau'r tymor newydd

hyn. Mae'r Eglwys Norwyaid bellach yn ganolfan gymdeithasol, ac er bod presenoldeb Cristnogol i'w weld ar yr Oleulong yn y Bae yn ystod cyfnod cynnar y Cynulliad, mae honno bellach wedi dod i ddiwedd ei hoese.

Hwyrach y bydd rhai'n synnu ac eraill yn ei weld yn eironig fod y Prif Weinidog Rhodri Morgan ar y pryd, ac yntau'n Ddyneiddiwr, yn credu bod Cymunedau Ffydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru. Ers ei sefydlu yn 2002, mae cyfansoddiad Fforwm Cymunedau Ffydd wedi mabwysiadu strwythur sy'n cynnwys y mwyafrif o draddodiadau Cristnogol ein gwlad a dau gynrychiolydd o bob un o'r prif grefyddau eraill yn y byd. Wedi hynny, penderfynwyd y dylai Cadeirydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru hefyd gael ei wahodd gan y Prif Weinidog, gyda'r bwriad o sicrhau bod cymunedau ffydd llai hefyd yn cael mynediad i'r broses. Un sy'n aelod o'r fforwm hwnnw yw Rheinallt Thomas, yn rhinwedd ei swydd fel Llywydd Cenedlaethol Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.

Meddai Rheinallt, 'Drwy gydol y cyfnod, mae'r ffydd Gristnogol wedi'i chynrychioli gan Archesgob Anglicanaidd Cymru, Archesgob Catholig Caerdydd a Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru neu eu heilyddion. Caniatawyd un cynrychiolydd yr un i Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) a Chynghrair Efengylaidd Cymru. Mae'r ddau sefydliad hefyd, lle bynnag y bo modd, wedi cynorthwyo swyddogion Llywodraeth Cymru i gael gwelediad am ehangder yr argyhoeddiad Cristnogol, ac ym mis Ionawr eleni cytunwyd i roi sedd i gynrychiolydd o eglwys dan arweiniad pobl dduon. Mae'r Fforwm yn cyfarfod ddwy neu dair gwaith y flwyddyn dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog ac ar lafar mae'n cael ei adnabod yn aml fel Fforwm y Prif Weinidog, sy'n dangos yn eglur beth yw

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Ffydd yn y Senedd

(parhad o dudalen 1)

statws y Fforwm. Mae'r agenda yn eang, ac roedd yn ddi-ddorol fod Mark Drakeford, yn ei gyfarfod cyntaf fel Cadeirydd, yn nodi ar y diwedd fod trafodaethau'r Fforwm mor bwysig fel y dylid ymestyn yr amser a neilltuir i bob cyfarfod.'

Hefyd, o fewn adeiladau'r Senedd mae grwpiau anffurfiol yn cyfarfod, gydag aelodaeth lawer mwy agored, nad ydynt yn rhan o wead swyddogol y Llywodraeth. Un o'r rheini ydy'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd. Cadeirydd y grŵp hwn yw'r gwleidydd a'r gweinidog Darren Millar, a'r cynullydd ydi Jim Stewart o'r Gynghrair Efynglydd. Mae'n cyfarfod tua thair gwaith y flwyddyn, gyda phwnc a siaradwyr sy'n amrywio ond bod agwedd 'ffydd' yn gyswllt. Fel rheol, bydd negeseuon yn cael eu gyrru o'r cyfarfod at Weinidogion y Llywodraeth.

Achlysur blynyddol arall sy'n digwydd o fewn y Senedd yw'r Brecwast Gweddi Cenedlaethol, sy'n cael ei gynnal bob blwyddyn ddechrau mis Mawrth. Fel arfer, ceir derbyniad yn y Senedd y noson cynt, lle ceir cyflwyniad ar eitem ffydd, ac yna cynhelir y brecwast gweddi y bore canlynol, a hwnnw'n cael ei lywyddu gan Darren Millar. Mae amser yn cael ei neilltuo i weddio dros faterion y Senedd, gan gyfuniad o gynrychiolwyr enwadol a nifer o aelodau'r Cynulliad. Ers sefydlu'r Cynulliad yn 1999 cynhaliwyd brecwast llai yn fisol gyda staff ac Aelodau o'r Cynulliad o bob plaid wleidyddol. Meddai Darren Millar: 'Mae'n cynnig cyfle unigryw i roi cefnogaeth i'n gilydd ac i weddio dros waith y llywodraeth yng Nghymru.'

Ers dwy flynedd hefyd mae David Emery o Fyddin yr Iachawdwriaeth wedi bod yn gweithredu fel Caplan swyddogol i'r Senedd. Yn ôl Darren Millar, a fu'n rhan amlwg o sefydlu hyn, 'Bydd y gwasanaeth



David Emery, caplan y Senedd gyda Daren Millar

newydd hwn yn darparu cefnogaeth i Aelodau Cynulliad o bob ffydd a'r rhai nad ydynt yn arddel ffydd, a bydd yn ategu'r gwasanaethau cwnsela presennol sydd ar gael.'

Meddai David pan gafodd ei benodi, 'Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i wasanaethu fel hyn, ac edrychaf ymlaen at gael cefnogi Aelodau ein Senedd wrth iddynt arfer eu cyfrifoldebau sy'n effeithio ar ein cenedl. Mae'r rhain yn ddyddiau heriol a hyderaf y bydd darparu Gwasanaeth Caplaniaeth ar gyfer Aelodau ein Senedd yn cynnig cefnogaeth benodol yn ôl yr angen.'

Elfen bwysig arall yw fod Gethin Rhys o fudiad Cytûn, Eglwys Yngghyd yng Nghymru, yn Swyddog Polisi ar ran yr eglwys, gyda'r cyfrifoldeb o sylwebu ar waith y Senedd, gan adrodd yn ôl i strwythurau ein henwadau a'n heglwys. Mae gwaith Gethin dros y blynyddoedd wedi bod yn hynod werthfawr, yn y rôl o'n briffio fel eglwys i a Christnogion am faterion y dylem fod



Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn

yn ymwybodol ohonynt er mwyn medru ymateb yn ddeallus a phriodol. Bu'r gwaith hwn yn arbennig o effeithiol yn ystod blwyddyn COVID, gan i'r diweddariadau gan y Llywodraeth gael eu dehongli a'u cyfathrebu'n eglur ar ein cyfer gan Cytûn.

Meddai Gethin, wrth ymateb i'r etholiadau diweddar, 'Un peth sy'n fy nghalonogi yn fy ngwaith gyda Cytûn yw'r ffordd y mae Aelodau o Senedd Cymru nad ydynt yn arddel ffydd gyhoeddus mor barod i ganmol gwaith eglwys o fewn eu hetholaethau ac yn mynegi parch a gwerthfawrogiad o'n gwaith yn genedlaethol. Fel y dywedodd un o'r aelodau wrthyf, "Does yr un mudiad arall â changen weithredol ym mhob tref a phentref yng Nghymru." Mae hynny eto'n dangos gwerth cymunedau ffydd ym mywyd ein gwlad.'

Yn dilyn yr etholiadau diweddar, mae'n ddi-ddorol ac yn galonogol sylwi bod nifer o'r aelodau newydd yn dod o gefndir ffydd cryf iawn. Meddai Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn, 'Rwy'n llawenhau bod cymaint o'n haelodau yn y Senedd yn dod o gefndir ffydd erbyn hyn, ac edrychwn ymlaen at gydweithio â nhw wrth geisio sicrhau cyfiawnder a chwarae teg i holl drigolion ein gwlad.'

Un o'r rheini yw Peredur Owen Griffiths, sydd wedi treulio blynyddoedd yn gweithio i Gymorth Cristnogol a Chytûn, ond sydd bellach yn Aelod Rhanbarthol yn y Senedd. Wrth iddo weithio i fudiad dyngarol a Christnogol, yn ogystal â'i waith fel blaenor yng Nghapel y Crwys, rydym wedi gweld ei ffydd ar waith gydol y blynyddoedd, a hyderwn y bydd i'r gwerthoedd sylfaenol hyn ei gynnal yn ei swydd newydd.

Mae'n debyg fod yna flaenoriaid eraill hefyd wedi eu hethol y tro yma, gan gynnwys Sioned Williams, sy'n flaenores yn Soar, Pontardawe, a Llŷr Huws Gruffydd, yntau'n flaenor ym Mhentrecelyn. Mae sawl mab y Mans yno hefyd, gan gynnwys Mabon ap Gwynfor a Peredur. Ar ddechrau ei broffil swyddogol ar wefan y Senedd, mae Darren Millar datgan ei fod yn Gristion o argyhoeddiad, ac yntau hefyd wedi gwasanaethu fel gweinidog gyda'r Pentecostiaid.

Aelod arall newydd i'r Senedd yw Rhys ab Owen, aelod brwd a gweithgar yn eglwys y Tabernacl, Caerdydd, a phregethwr cynorthwyol gweithgar ac effeithiol. Mae Mike Hedges yntau hefyd yn aelod gweithgar gyda'r Bedyddwyr yn eglwys Seion Newydd, Abertawe, tra mae Russell George yn disgrifio'i hun fel Cristion gweithgar ac yn aelod yn Eglwys Hope, y Drenewydd. Gwyddom am eraill hefyd sy'n aelodau mewn eglwys dros Gymru, a gobeithio y cânt i gyd gefnogaeth mewn gair o anogaeth ac mewn gweddi gennym ni fel cyd-aelodau o eglwys Iesu Grist.

Tybed oes gan ddarlennwyr *Cenn@d* straeon i'w hychwanegu? A wyddoch chi am Aelodau o'r Senedd sy'n weithgar mewn eglwys? Beth yw eich gobeithion CHI ar ddechrau tymor newydd y Senedd, a sut tybed fedrwn ni rannu hynny ag Aelodau o'r Senedd? Beth am yrru gair atom, fel y gallwn ni eu cyflwyno i sylw'r aelodau. Cofiwch fod Gethin Rhys ar gael i'n cynghori a'n cefnogi. Bendith ar waith y Senedd newydd dros y pum flynedd nesaf.

Ymhen pythefnosf cawn ail ran yr erthygl hon, lle bydd Aled Davies yn cael ymateb y gwleidyddion eu hunain i'w gobeithion a'u breuddwydion am y 5 flynedd nesaf. Beth am i ddarlennwyr *Cenn@d* hefyd rannu am eu gobeithio a'u pryderon? Gyrrwch neges i aled@ysgolsul.com

O'r Llwyfan

Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru Trefniadau Amgen: Lleol a Rhithiol

**Yr Adran Gymraeg ar wahoddiad Cymanfa Gorllewin
Morgannwg: 'Awr Duw yn Galw'**

Bu'n rhaid gohirio Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb y llynedd o ganlyniad i Covid-19 ac er bod y sefyllfa wedi gwella'n raddol erbyn hyn, yn anffodus nid ydym yn rhagweld y gellir cynnal y cyfarfodydd yn y modd arferol eleni ychwaith.

Felly, yn dilyn ymgynghoriad gyda Swyddogion y Gymanfa a'r Undeb, penderfynwyd mai doethach fyddai cynnal cyfarfodydd rhithiol, a hefyd trefnu rhai cynulliaid lleol gyda niferoedd cyfyngedig yn bresennol.

I'r perwyl hwn, bydd dwy oedfa yn cael eu recordio, sef Oedfa'r Llywydd yn Seion Newydd, Treforys, ac Oedfa'r Weinidogaeth yng Ngharmel, Pontlliw, ac fe'u darlledir ar 22 a 23 Mehefin am 6.30 y.h. trwy gyfrwng Zoom pan roddir cyfle i'r holl gynrychiolwyr ymuno. At hynny bydd y Cyfarfod Busnes yn cael ei gynnal fore dydd Llun, 21 Mehefin, am 10.30 o'r gloch.

Edrychwn ymlaen at urddo Miss Aldyth Williams, Seion Newydd, Treforys, yn Llywydd yr Undeb ar gyfer 2021–2022. Yn ystod Oedfa'r Weinidogaeth, pregethir gan y Parchedig Vincent Watkins, Carmel, Pontlliw.

Yr Adran ddi-Gymraeg: Momentum: 'Newid yr Awyrgylch' (mewn partneriaeth â Chymanfa Bedyddwyr De Cymru, Coleg y Bedyddwyr Caerdydd a Chymdeithas Genhadol y Bedyddwyr)

Eto, ni fydd yn bosib cynnal cynhadledd Momentum yn y modd arferol eleni. Ond estynnir gwahoddiad i bob Eglwys Fedyddiedig i fod yn Fomentwm ac ymuno mewn ton o weddi a fydd yn dechrau ar y Pentecost, sef dydd Sul, 23 Mai, ac yn parhau tan ddydd Sul, 27 Mehefin, pan gynhelir digwyddiad cenedlaethol am 6.30 y.h. a ddarlledir yn fyw dros y we.

Bydd y don o weddi yn dechrau yn Ilston – man geni Bedyddwyr Cymru – ac yn symud i ganolfannau penodedig yn y gorllewin, y gogledd a'r canolbarth. Estynnir gwahoddiad i bob eglwys i fod yn rhan o'r digwyddiadau ac i weddio'n benodol am arweiniad a chymorth Duw. Gofynnir i eglwysi ystyried y cwestiynau canlynol:

- Pan edrychwn ar ein cymunedau, pa beth a welwn sydd yn doredig?
- Pwy sydd wedi'i ddolurio?
- Pan fyddwn yn gweddio, 'Deled dy deyrnas, gwnele dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd' – sut mae hynny'n berthnasol i'n sefyllfaoedd unigol?
- Ble mae angen gweld Teyrnas Dduw ar waith?
- Beth yw'r 'newyddion da' ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu galw i fod yn eglwys?
 - A allwn fentro credu trwy weddi y gall Dduw newid yr hinsawdd ysbrydol?



Mawr obeithir y bydd y digwyddiadau yn fodd o greu partneriaethau gweddi ond, yn bennaf oll, hyderwn y bydd Duw yn ateb ein gweddïau ac yn ein cynorthwyo i drawsffurfio sefyllfaoedd o anobaith yn obaith, marwolaeth yn fywyd a chaethiwed yn rhyddid.

Estynnir gwahoddiad cynnes iawn i'r Eglwysi Cymraeg ymuno yn y digwyddiadau rhithiol, yn ogystal â'r cyfarfodydd a gynhelir yn y canolfannau canlynol:

Dyddiad	Canolfan
25 Mai	Abertawe
28 Mai	Hwlfordd
3 Mehefin	Y Bontnewydd ar Wy
6 Mehefin	Aberhonddu
9 Mehefin	Bangor
10 Mehefin	Risca
16 Mehefin	Griffithstown
19 Mehefin	Casnewydd
22 Mehefin	Pontypridd
24 Mehefin	Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
26 Mehefin	Pen-y-bont ar Ogwr

Deisyfwn fendith Duw ar y Cyfarfodydd Blynyddol ac yn arbennig ar y ddau Lywydd a fydd yn cael eu hurddo, sef Miss Aldyth Williams, Seion Newydd, Treforys, a'r Parch Steve Wallis, y Bontnewydd ar Wy.

Judith Morris

Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru

Caru cymydog?

'Mae tua 87% o holl frechlynnau'r byd wedi mynd i'r gwledydd cyfoethocaf, a dim ond 1% o boblogaeth gwledydd tlotaf y byd sydd wedi'u brechu (7 Mai 2021). Y tu hwnt i'r ddadl, "does neb yn ddiogel hyd nes bod pawb yn ddiogel", erys "câr dy gymydog fel ti dy hun" fel yr arweiniad gorau.'

Steve Chalke

Steve Chalke gan Howard Lake (CC BY-SA 2.0) ▶



Eglwysi Jerwsalem a'r byd yn galw am gyfiawnder yn Israel a'r Llain Orllewinol

Mae Cyngor Eglwysi'r Byd (World Council of Churches, WCC) wedi condemnio'r trais a welwyd ym mosg yr Al-Asqa nos Wener, 7 Mai, lle'r adroddwyd am anafu dros 200 o bobl. Mewn datganiad gan arweinwyr yr eglwysi Catholig Rufeinig, Uniongred Roegaidd, Uniongred Syriaidd, Coptig, Armenaidd ac Anglicanaidd, fe alwyd am barch tuag at y safleoedd sanctaidd yn Hen Ddinas Jerwsalem er mwyn heddwch a sefydlogrwydd.

Galwodd yr arweinwyr eglwysig yn Jerwsalem ar y gymuned ryngwladol i 'ymyrryd er mwyn dod â'r gweithredoedd oedd yn herio'r ochr arall i ben, yn ogystal â pharhau i weddio dros heddwch Jerwsalem'.

Dyweddodd y Gwir Barchedig Richard Sewell, Deon Coleg Sant Siôr yn Jerwsalem, ei bod yn anarferol iawn i arweinwyr eglwysi Jerwsalem wneud datganiadau o'r fath oherwydd y pryder y byddai eu geiriau'n cael eu camddehongli, ond eu

bod yn awyddus i nodi 'bod y tensiynau cynyddol hyn ... yn peryglu sefyllfa fregus sydd eisoes yn bodoli yn Jerwsalem ac o gwmpas y ddinas'.

Dydd Mercher, 11 Mai, dywedodd Antonio Guterres, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, bod yn rhaid atal y gwrthdaro a bod nifer cynyddol y colledion, gan gynnwys plant, yn hollol annerbyniol. (Roedd wyth Israeliaid a 119 o Balestinaidd wedi eu lladd yn yr anghydfod erbyn y 14eg.)

Erbyn i'r cyhoeddiad hwn weld golau dydd, does wybod pa ddfrod pellach a cholli bywydau fydd wedi digwydd yn y ddinas ac yn Israel yn ehangach, yn y Llain Orllewinol a Stribed Gaza yn arbennig, wrth i'r wlad suddo i sefyllfa o anghydfod a rhyfel cartref.

Ond mae llawer achos i'r gwrthdaro. Un o'r rheiny yw'r hyn sydd wedi digwydd yn nhiroedd y meddiant yn y Llain Orllewinol

yn nwyrain Jerwsalem. Trwy Raglen Cymdeithion Eciwmenaidd ym Mhalesteina ac Israel (EAPPI), mae Cyngor Eglwysi'r Byd wedi darparu presenoldeb gwarchodol i'r gymuned Balesteinaidd yn Sheikh Jarrah ers 2008. Roedd y rhaglen yn cynnwys mynychu llysoedd i gefnogi'r teuluoedd oedd dan fygythiad o gael eu troi allan o'u cartrefi wrth i'r rheiny gael eu hawlio gan grwpiau Iddewig oedd am setlo yn nhiroedd y meddiant yn y rhan hon o ddwyrain Jerwsalem.

'Ar ran y gymdeithas eciwmenaidd fyd-eang o eglwysi, rwy'n mynegi ein gofid dwfn am sefyllfa'r teuluoedd Palesteinaidd yn Sheikh Jarrah,' meddai'r Athro Ioan Saucá, ysgrifennydd cyffredinol dros dro Cyngor Eglwysi'r Byd, 'yn ogystal â'r gwrthdaro a'r trais sydd wedi dilyn ers hynny. Nid rhagor o drais yw'r ymateb priodol, ond dangos trugaredd a chyfiawnder i'r Palestinaid a effeithir gan y sefyllfa annheg ac anghyfiawn hon.'

Rhyddhawyd datganiad cryf gan Gymorth Cristnogol am y sefyllfa ar 13 Mai, ac fel eglwysi Jerwsalem a Chyngor Eglwysi'r Byd, mae llawer o'r eglwysi sy'n cefnogi EAPPI wedi condemnio'r trais a welwyd yn Israel ac yn gofyn ar i gyfiawnder a thegwch gael eu rhoi ar waith er lles pawb yn Israel a'r Llain Orllewinol.

Dolenni at rai o'r datganiadau: [Raglen Cymdeithion Eciwmenaidd ym Mhalesteina ac Israel/ Ecumenical Accompaniment Programme in Palestine and Israel | Cyngor Eglwysi'r Byd WCC \(oikoumene.org\)](https://mediacentre.christianaid.org.uk/ground-war-will-take-gaza-into-the-depths-of-hell-christian-aid-warns/)

<https://mediacentre.christianaid.org.uk/ground-war-will-take-gaza-into-the-depths-of-hell-christian-aid-warns/>

Gweler hefyd erthygl Jane Harries, 'Cylch cythreulig y gellid bod wedi'i rag-weld' yn Agora, rhifyn 45 (<http://cristnogaeth21.cymru/cylch-cythreulig-y-gellid-bod-weddi-rag-weld/>)



Gweddi dros waith y Senedd ar ddechrau tymor newydd

Arglwydd, diolchwn i ti am Gymru, ein gwlad: am ei hanes, ei threftadaeth a'i diwylliant.

Diolch am brydferthwch dy greadigaeth, o'r môr i'r mynydd.

Diolch am bawb sy'n chwarae eu rhan ym mywyd ein gwlad, ac am bawb sy'n ein gwasanaethu mewn amryw ffyrdd, mewn gwasanaethau cyhoeddus, iechyd, gofal ac addysg.

Gweddiwn yn benodol heddiw dros waith y Senedd ar ddechrau tymor newydd o Lywodraeth.

Diolchwn am y 60 aelod sy'n ein cynrychioli yn y Senedd: am y rhai hynny sydd yno ers blynnyddoedd, a'r rhai sy'n cychwyn ar bennod newydd yn eu hanes.

Gweddiwn y bydd i Ti eu cynnal a'u harwain wrth iddynt gyflawni eu gwaith.

Gweddiwn dros Mark Drakeford, y Prif Weinidog, y bydd iddo gael nerth ac iechyd i weithredu er lles ei bobl.

Gweddiwn dros waith Eluned Morgan, wrth iddi hithau afael yn y gwaith o ofalu am iechyd ein gwlad. Mewn cyfnod heriol wrth ddelio â rhannu'r brechlyn, rheoli COVID a cheisio ymateb i oedi mewn triniaethau yn sgil y pandemig, gweddiwn am bob rhwyddineb iddi yn y gwaith pwysig hwn.

Gweddiwn dros Elin Jones, y Llywydd, y bydd iddi hithau gael pob doethineb a gras wrth reoli'r gwaith yn y siambr.

Gweddiwn hefyd dros holl weithwyr eraill y Senedd, yn weinyddwyr, y rhai a fydd yn llunio polisiau, a'r rhai fydd yn ymchwilio a chloriannu'r gwaith.

Helpa ninnau i'w cefnogi, mewn gweddi, gair a gweithred.

Arwain ni i freuddwydio am yr hyn a all fod yn bosib o fewn ein gwlad, gan ymrwmo i ddileu pob tlodi ac anghyfiawnder, i geisio heddwch a chymod.

Gofynnwn hyn oll yn enw dy fab, Iesu Grist. Amen.

Aled Davies



O Gefn Gwlad



Diflastod

Mae diflastod, meddai'r rhais y'n gwybod, yn un o broblemau mawr yr oes. Nid bod y gair yn cael ei ddefnyddio'n aml, gan mai 'boring' a 'boredom' yw'r geiriau poblogaidd y dyddiau hyn, er bod 'diflas' a 'diflastod' yn well geiriau o lawer. Bu'r cyfnod diweddar, ers dros flwyddyn yn wir, yn gyfnod o ddiflastod i laweroedd yn ein gwlad ac yn ein byd.

Mae'r cymdeithasegwr Almaenig Martin Doehlemann yn rhestru pedwar math o ddiflastod. Go brin fod neb ohonom nad yw wedi profi un, neu fwy, o'r mathau hyn o dro i dro, ac yn enwedig efallai yn ystod cyfnod annaturiol, caethiwus y pandemig.

Y math cynta o ddiflastod yw'r un sefyllfaol, ac un dros dro yw hwn. Y diflastod o aros am drên neu fws sy'n hwyr, am rywun sydd i fod i'ch cyfarfod ar amser penodedig ond sy'n hwyr yn cyrraedd – diflastod y byddaf i'n ei deimlo'n aml gan fod gen i ryw fath o obsesiwn am brydlondeb. Ie, diflastod aros yw hwn yn fwy na dim arall. Dydi o ddim yn rhywbeth newydd, mae'n bod erioed. Mae cerdd yn Gymraeg sy'n mynd ymhell yn ôl yn llên gwerin Ceredigion yn dweud rhywbeth fel hyn:

Hir yw'r dydd a hir yw'r nos,
A hir yw aros Arawn.

Nid dyma'r lle i ymhelaethu ar pwy oedd Arawn a beth oedd ei hanes, ond y mae'n chwedl ddiddorol. Chwiliwch amdani os teimlwch yn ddiflas!

Yr ail ddiflastod yw'r hyn a elwir yn syrffed. Cael syrffed ar rywbeth. 'Digon yw digon,' medden ni ar adegau. Ac y mae llawer o bethau ac amgylchiadau'n bod lle ryden ni'n cael digon. Ond mae hwn yn ddiflastod hawdd ei ddileu; mae'r allwedd yn ein dwylo ni, os cawsom ddigon ar rywbeth. Ond rhaid i ni wyllo rhag i bethau y credwn eu bod yn dda i ni droi'n syrffed i eraill. Gwn am ddigon o bobl gafodd syrffed ar grefydd, a hynny am iddi gael ei gwthio i lawr eu corn gyddfau. Pechod parod y rhai ohonom sy'n arddel Cristnogaeth ac yn fynychwyr capeli yw gwneud ein crefydd yn syrffed, nid yn gymaint i ni ein hunain, ond i eraill.

Y trydydd math o ddiflastod yw'r un dirfodol – mewn geiriau eraill, yr un sy'n dweud fod bywyd yn wag, yn ddibwrpas, yn ddi-nod. Hwn yw'r gwaethaf ohonyn nhw, ac yn ein byd a'n cymdeithasau mae yna lawer o bobol yn teimlo'r diflastod hwn. Llaweroedd sy'n methu gweld unrhyw rinwedd mewn bywyd, methu gweld unrhyw bwrpas iddo mewn gwirionedd. Mae hwn yn gallu bod yn

berylglus, gall arwain at ganlyniadau trychinebus, ac nid yn hawdd y mae codi pobl sydd wedi suddo i ddyfnderoedd y diflastod hwn.


A yw pob diflastod yn negyddol? Na, mae yna bedwerydd, yn ôl yr arbenigwr – y diflastod hwnnw sy'n eich gyrru i chwilio am rywbeth newydd i'w wneud, am weithgaredd nad ydych wedi meddwl amdano cyn hyn. Ac nid drwg mo hwn; y mae iddo agweddau creadigol. Sawl un glywais i amdano yn ystod y cyfnodau clo sy wedi ymroi i ddiddordebau newydd, i ddechrau tynnu lluniau, i ysgrifennu rhywbeth, i ddarllen yn fwy eang; eraill i fod yn greadigol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Ymddiddori ym myd natur am y tro cynta efallai, yn enwedig y ni sy'n byw yng nghefn gwlad ac wedi cymryd gwyrth y cread yn ganiataol. Oes, y mae yna'r fath beth â diflastod creadigol sy'n rhywbeth cadarnhaol iawn.

Oes yna ateb neu feddyginiaeth i bob diflastod? Oes yna ateb syml i bob problem? Na, go brin bod yna. Os yw'r problem yn un ddyrys, yna nid syml yr ateb chwaith gan amla. Ond y mae gan y Cristion obaith dod allan o dywyllwch diflastod, a hynny efallai drwy gofio llinellau cynta emyn arbennig W. Rhys Nicholas:

Tydi a wnaeth y wyrth, o Grist, Fab Duw,
tydi a roddest imi flas ar fyw.

Ie, gwyn ein byd, onid e, os ydym yn cael blas ar fyw.

*Eflyn Pritchard
Sarnau*



Darlith Goffa - Gethin Abraham-Williams - Memorial Lecture

"Diwedd y Byd? Apocalyptic Cristnogol ac ymatebion
i newid hinsawdd"

"The End of the World? Christian apocalyptic and
responses to climate change"

- Parch./Rev. Gethin Rhys
20.5.2021 17:00-18:30

ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

ACTAU'R APOSTOLION

Cyfes o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Cymeriadau'r Testament Newydd

Yr Eglwys Fore

Rhif 46 – Yr Ysbryd Glân

Gweddi

Ymdawelwn, Arglwydd, ger dy fron, a gofyn am brofi'r goleuni dwyfol wrth i ni fyfyrion ar berson yr Ysbryd Glân. Helpa ni i'w weld fel cyfaill a chwmni parhaus. Trugarha wrthym am droi ato'n ysbeidiol yn hytrach na thrwy'r amser, a'n bod yn orbarod i ddigalonni yn hytrach na phrofi'r bywiol bresenoldeb sydd ynddo. Amen.

Darlleniad Actau 2:1-4; Ioan 16:1-15

Cyflwyniad

Bydd pob llyfr sydd â hanes yn gefndir iddo yn cyfeirio at gymeriadau a phobl ddynol ar lwyfan bywyd. Fel ym mhob drama neu nofel, bydd yr awdur yn portreadu personau o gig a gwaed. Profiad sy'n amlwg yn wahanol yw sôn am Dduw fel person, a bydd sôn am y Drindod yn gofyn llawer o egluro a dadansoddi. Soniodd Iesu am ddyfodiad yr Ysbryd Glân, nid yn gymaint fel person tebyg iddo ef, ond fel presenoldeb a fyddai'n hyrwyddo cymdeithas a gweithgarwch yr eglwys ar ei ran ac yn ei enw ef fel Arglwydd a Gwardwr. Mae gan Dr Tudur Jones esboniad arbennig sy'n gwneud hyn yn effeithiol, a gallaf ei gymeradwyo.*

Bydd ambell grŵp o eglwysi'n sôn am yr Ysbryd Glân drwy'r amser, tra bydd eglwysi eraill yn osgoi diffinio a dadansoddi trydydd person y Drindod, gan adael i'r cyfan fod yn rhan o 'fysteriw' Cristnogaeth. Nid syniad

yw'r Ysbryd Glân, na chymeriad rhithiol; mae'n fyw ac yn ddeinamig, yn cynnig cefnogaeth i unigolyn a chymdeithas, ac yn rhannu dealltwriaeth esboniadol o waith a phwrpas Duw.

Myfyrdod

Yn ein darlleniad, sonia Luc am yr Ysbryd Glân fel gwynt yn rhuthro ac yn llenwi'r holl dŷ lle roedd yr apostolion wedi ymgasglu. Cawn gyfeiriadau eraill ato fel 'gwynt yn chwythu lle y mynno'. Prin y gellir gweld gwynt, ond bydd pawb yn ymwybodol o weld effaith y gwynt ar ein cyrff ac ar dyfiant byd natur. Ni ddywedodd Luc mai gwynt oedd yr Ysbryd Glân, ond ei fod 'fel' gwynt yn chwythu ac yn dylanwadu ar brofiadau pobl. Ni ellir gweld cariad na chasineb fel eitemau diriaethol, ond byddwn yn gwybod am eu dylanwad ar bobl, y naill yn dda a'r llall yn ddrwg.

Yn Efengyl Ioan, sylwn ar waith yr Ysbryd Glân yn goleuo dealltwriaeth pobl o eiriau Iesu ac yn arwain yr eglwys ar ei thaith. Bydd yr Ysbryd Glân yn cysuro ac yn cadarnhau, yn cyfeirio ac yn argyhoeddi. Er mor fregus a gwantan yw pobl yn gyffredinol, a theulu'r ffydd yn benodol, bydd presenoldeb yr Ysbryd yn trawsnewid y gwannaf i fod yn gryf, a'r sawl sy'n crwydro i gerdded ymlaen ar hyd ffordd Crist. Ceir llu o emynau gwerthfawr yn rhannu profiadau pobl, a hawdd gwerthfawrogi deisyfiad W. Pari Huws yn ei emyn: 'Arglwydd Iesu, llanw d'Eglwys / â'th Lân Ysbryd di dy hun'. (*Caneuon Ffydd*, 839)

Pan fydd seciwlariaeth yn hawlio bod yr eglwysi'n marw a'n bod mewn oes ôl-

Gristnogol, dydyn nhw ddim wedi deall bod yr eglwys sy'n llawn o'r Ysbryd Glân yn anorchfygol. Dyma yw 'Ysbryd byw y deffroda'u', ac yng ngeiriau Dafydd William:

dy Ysbryd sy'n goleuo,
dy Ysbryd sy'n bywhau,
dy Ysbryd sydd yn puro,
sancteiddio a dyfrhau.

(*Caneuon Ffydd*, 580)

Gweddi

Diolch, Arglwydd Dduw, am brofi'r Ysbryd Glân, ac wrth ddathlu'r Pentecost eleni gweddiwn:

Deued fflam yr adnewyddiad,
rhodded Gymru oll ar dân;
deuwn ato'n edifeiriol
ac fe droir ein gwarth yn gân:
dwyfol ias, nefol flas
ddaw drwy'r Ysbryd Glân a'i ras.

(*Caneuon Ffydd*, 579)

Trafod ac ymateb

- I beth y mae'r Ysbryd Glân yn debyg yn y Testament Newydd (e.e. Actau 2:1-4; Luc 3:22)?
- Pam roedd hi'n fuddiol i'r disgyblion fod Iesu yn eu gadael (Ioan 16:7)?
- 'Petai Duw'n gwrandao ar ein deisyfiad ac yn anfon ei Ysbryd, beth fyddai'n digwydd? Ym mha ffordd y mae oedfa gyda'r Ysbryd Glân yn wahanol i oedfa hebddo?' (O bennod gyntaf *Yr Ysbryd Glân*, gan R. Tudur Jones, tud. 13)

**Yr Ysbryd Glân*, R. Tudur Jones, Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd (Esboniad Ysgol Sul yr Oedolion, 1972)

S4C

Nos Sul, 23 Mai – Y Sulgwyn, am 7:00yh
Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Yr wythnos yma, saith wythnos wedi dydd Sul y Pasg, rydym yn dathlu'r Sulgwyn. Cawn glywed am bwysigrwydd y Sul yma a mwynhau perfformiad arbennig o 'Y Weddi' gan Celyn Cartwright a Trystan Llŷr Griffiths.

BBC radio cymru

Sul, 23 Mai – Y Sulgwyn

Caniadaeth y Cysegr, am 7.30yb a 4.30yp

Yr ail raglen gyda'r chwechawd Jennifer Walker, Amy Campbell, Elin Llwyd, Betsan Morgan, Phyl Nichols, Osian Rowlands a CŌR yn canu detholiad o emynau a gweithiau cysegredig

Sul, 23 Mai, am 12yp

Cawn ddathlu'r Pentecost gydag aelodau o Gylch Catholig Aberystwyth.

Dathliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd



Ddydd Iau, 6 Mai, cafodd Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Gogledd Cymru gyfle i ymweld â Chricieth yn rhithiol ar gyfer Dathliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd. Cafwyd gair o groeso gan y Parch Nan Powell-Davies a diolchodd i Hedd Morgan am ofalu am yr ochr dechnegol. Eglurodd mai Chwiorydd Capel y Traeth, dan arweiniad Eirwen Jones, oedd yn gyfrifol am baratoi'r gwasanaeth. Eu dyhead oedd paratoi gwasanaeth ar ffurf ffres a newydd a'i ffilio ar gyfer cyfarfod rhithiol Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd. Diolchodd iddynt am eu brwdfrydedd ac ar ôl gweddi fer dangoswyd y gwasanaeth ar ffurf ffilm.

Dechreuwyd gyda golygfeydd o Gricieth a chwiorydd Capel y Traeth tu allan i'r capel gyda baner a'r geiriau 'Croeso i'r Dathlu'. Croesawyd ni ymhellach i'r dathliad gan Gwenfron Ogwen Jones, Wrecsam – Llywydd Pwyllgor Cenhadol Chwiorydd y Gogledd; Christine Hodgins, Penarlâg – Llywydd Is-bwyllgor y Chwiorydd; a Carys Davies, Llangefni – Cydlynnydd Rhaglen Dorcas y Gogledd.

Dilynwyd hyn gyda chyflwyniad i'r llyfryn 'Myfi yw Bara'r Bywyd' gan y Parch Eirlys Gruffydd-Evans. Eglurodd fod y llyfryn yn cynnwys gwasanaethau, astudiaethau, tystiolaethau, newyddion am brosiectau cenhadol a gwaith crefft i gefnogi elusennau. Cyfeiriodd at y ffaith fod casgliad arbennig Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn noddol prosiectau dramor a chartref ac yn gyfle i rannu cariad.



Sasiwn y Chwiorydd, Ysbyty Tebello

Cawsom weld a chlywed Dr Graham Thomas o Ysbyty Tebello, Lesotho, a Dr Dina, sy'n gofalu am y cleifion yn Ward K, Ysbyty'r Synod, Durtlang, Mizoram.



Diddorol hefyd oedd clywed am rai prosiectau cartref sy'n derbyn cyfraniad at eu gwaith o gasgliad arbennig Chwiorydd. Rhannodd Gwawr Davies ei phrofiadau'n gweithio gyda dwy elusen yn Llundain. Ychwanegodd sut yr oedd hi wedi profi cariad Crist a'i dyhead oedd y byddai eraill yn profi'r un cariad.

Diolchodd Dr Heledd Iago am y gefnogaeth i fudiad Baby Basics, Dyffryn Clwyd, a oedd yn paratoi eitemau angenrheidiol ar gyfer mamau a'u babanod newydd.



Adroddodd Menna Jones, y trysorydd, fod cyfanswm casgliad arbennig Chwiorydd y Gogledd yn £13,609, ond credai fod mwy o arian i ddod eto. Diolchodd i bawb am eu haelioni a bod lle i ddatlu.

Parhaodd y ffilm gyda Gwyneth Jones yn darllen 'Gweddi Paul dros y Philipiaid' a Mair Miller yn offrymu gweddi yng Nghapel y Traeth. Yna, clywsom leisiau Elsbeth Gwynne a Catrin Codd yn y cefndir yn disgrifio gwahanol olygfeydd – o draethau Llŷn ac Eifonydd i draethau ar draws y byd. Disgrifiwyd glan y môr Cricieth a chyfeiriwyd at weithgareddau Cenhadaeth y Traeth, sydd yn ein hatgoffa o dŷ ar dywod yn disgyn a thŷ ar graig, fel y castell gerllaw, yn fan diogel a chadarn.

Gwnaed y sylw fod y traethau wedi bod yn fodd o gario'r Efyngyl o draeth i draeth ar draws y byd, ac yn fodd o gyhoeddi'r efyngyl, dysgu plant a gweini mewn ysbtyai ar draethau India, Madagascar a China. Soniwyd hefyd am draethau yn Affrica a Jamaica fu'n gysylltiedig â chaethwasiaeth. Nodwyd bod ffoaduriaid yn cyrraedd y traethau er mwyn cael lloches a bod cyrff plant a'u mamau i'w gweld ar dywod melyn a chreigiau peryglus. O weld y cwch o flaen Capel y Traeth cawn ein hatgoffa o lesu ar lan môr Galilea gyda'i ddisgyblion. Er bod COVID-19 wedi lledaenu o fôr i fôr, mae presenoldeb yr lesu gyda ni ymhob storm.

Yna, clywsom ddatganiad o'r emyn: 'Fe chwythodd yr awel ar Gymru drachefn'. Dilynwyd hyn gan ddau ddarlenniad o Mathew 4: y cyntaf gan Dr Elin Pugh yn ein hatgoffa o eiriau'r lesu, 'Trowch gefn ar bechod, achos mae'r Un nefol yn dod i deyrnasu' (adn 12-17), a'r ail gan Bethan Williams, 'Galw Pedwar Pysgotwr' (adn 18-22).

Cawsom ein hatgoffa wedyn gan Helen Vaughan Williams am y cydweithio â'r Annibynwyr drwy CWM gan roi cymorth i gymunedau difreintiedig, a diolchodd i bawb sy'n hyrwyddo gwaith cenhadol. Offrymwyd gweddi gan Siân Jones, a diolchodd am y casgliad a'r gwaith yng Nghymru. Yna buom yn gwrandao ar yr emyn: 'Dyrod y gariad i'n clymu'.

Mena R Evans, Treffynnon
(i'w barhau yr wythnos nesaf)

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU HENADURIAETH MYRDDIN GOFALAETH CYLCH LLANDEILO A'R ARFORDIR



SWYDD CYNORTHWYDD GWEINIDOGAETHOL

Gwahoddwn rai â diddordeb mewn hybu gwaith Cristnogol ac Eglwysig i ymddiddori yn y swydd o Gynorthwydd Gweinidogaethol i wasanaethu yng Ngofalaeth Cylch Llandeilo a'r Arfordir.

Oriau: 35 awr yr wythnos

Cytundeb: 3 blynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

Cyflog: Graddfa 25-30 (£25,003.87-£27,634.74) a chyfle i ymuno â Phensiwn EBC

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirida boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Dyddiad cau: 16:00 Dydd Gwener 11 Mehefin 2021

Cyfweliadau: Rhagwelir y bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal ddydd Gwener, 18 Mehefin 2021

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:

e-bost – hedd.morgan@ebcpcw.cymru, ffôn – 02920 627 465

gan nodi – 'Swydd Cynorthwydd Myrddin'

Dyma gyfarfod hyfryd iawn (Sul y Pentecost)

Esgyrn ac anadl

Darlleniad – Actau 2:1–4

Gweddi

Eryn 571: ‘Tyrd, Ysbryd Glân, i’n c’lonnau ni’

Cyflwyniad

Roedd arweinwyr eglwys Cymru wedi dirnad mor gynnar â throad yr ugeinfed ganrif fod penllanw dylanwad Cristnogaeth ar feddwl y Cymry wedi mynd heibio. Roedd y cilio mawr wedi dechrau. Ac yn araf bach sychodd y traeth lle bu tonnau'r fendith yn golchi dros y bobl.

Mae llawer yn darogan diwedd ugeiniau o achosion anghydfurfiol yn ein gwlad yn ystod y degawd nesaf.

Ni chawsom ein galw i wasanaethu'n ffyddlon mewn cyfnod o fendith ddiwygiadol. Tymhorau o fendith **neilltuol** ar dystiolaeth **arferol** yr eglwys i ogoniant yr Arglwydd Iesu Grist yw cyfnodau diwygiadol o'r fath. Er i ni weld arwyddion daionus o fwriadau Duw tuag at ei eglwys yma yng Nghymru, a phrofi ambell gawod i'n hadfywio ar ein taith, ni chawsom (hyd yn hyn) weld un o'r tymhorau adnewyddol rydyn ni'n dyheu amdanynt.

Yn ogystal â'r chwalfa grefyddol sy'n ein tristáu, ni allwn beidio ag edrych ar ein gwlad ac wylo am ei doluriau. Dacw bobl yn byw mewn ofn: ofn colli eu gwaith; ofn eu partneriaid; a dacw blant yn byw dan arswyd rhag cael eu cam-drin. Dacw rai y mae eu caethiwed i gamblo, i gyffuriau, i alcohol, yn eu difetha. Clywir anfoesgarwch ac anghwrteisi, hiliaeth a llygredd yn difa'r corff oddi mewn.

Gadewir sgerbwd difywyd – esgyrn sychion na allant eu hadfywio eu hunain.

Darlleniad: **Eseciel 37:1–14**

Myfyrdod

Dychmygwch yn awr y proffwyd Eseciel (oedd yn gweinidogaethu tua 600 Cyn Crist) yn ceisio annog ei genedl, a hwythau mewn caethglud, ym Mabilon. Rheibiwyd Jerwsalem ar ddau achlysur a chaethiwyd y bobl mewn gwlad estron. Gallwn ddychmygu'r proffwyd yn meddwl am y brwydrau a fu ac am gelanedd yr ymladd adeg goresgyn y ddinas. Dacw 'esgyrn sychion' sgerbydau urddas y gorffennol yn syllu'n ddall i wawdio'i 'heddiw' bregus.

Babilon

Ym Mabilon roedd duwiau'r paganiaid yn cael eu dyrchafu mewn cerfluniau a

murluniau mawreddog a gweladwy, ac Arglwydd anweledig y gogoniant yn cael ei ddirmygu. Efallai fod rhai wedi dechrau coelio bod yna wirionedd yn ymffrost eu gelynyddion am wendid eu Duw. Wedi'r cyfan, ni lwyddodd 'yr Arglwydd' i amddiffyn ei addolwyr na'i deml sanctaidd yn Jerwsalem!

Diau fod lleisiau hefyd yn cynghori'r bobl i beidio â meddwl am Jerwsalem a'i hen grefydd. Gwell fyddai symud gyda'r oes. Onid ym Mabilon y roedd eu dyfodol bellach?

'Y maent yn dweud, "Aeth ein hesgyrn yn sychion, darfu am ein gobaith, ac fe'n torrwyd ymaith.'" (11) – dyna oedd y gri a gilydd.

Esgyrn

Yn yr ysgrifurau Iddewig cynrychioli hunaniaeth a chryfder y mae 'esgyrn'. Cwynai'r Salmydd, er enghraifft, fod ei drallod a chwerwedd ei boenau'n sigo'i enaid ac yn peri i'w 'esgyrn ddarfod' (Salm 31:10). Dro arall, cwynai fod 'fy nyddiau'n darfod fel mwg, a'm hesgyrn yn llosgi fel ffwrn' (Salm 102:3).

Y gair sy'n creu

Ar waethaf ei weledigaeth gynnar o fawredd Duw a'i alwad i fod yn broffwyd, yr unig beth a allai Eseciel yntau ei 'weld' oedd 'dyffryn a oedd yn llawn o esgyrn'.

Felly, ateb amwys roddodd Eseciel i ymholiad yr Arglwydd: 'Fab dyn, a all yr esgyrn hyn fyw?'

Ar y naill law fe wyddai Eseciel na allai unrhyw beth, nac unrhyw un, rwystro gwaith yr Arglwydd. Fe allai fod wedi dweud, 'Wrth gwrs. Mewn egwyddor, rwyf ti'n medru gwneud unrhyw beth.' Ond rhywbeth gwahanol oedd gofyn a fedrai'r Arglwydd ddod â bywyd i sefyllfa ddiobaith, benodol – 'yr esgyrn hyn!'

Fel Eseciel gynt, cawn ninnau heddiw ein rhwygo rhwng ofn ein hamgylchiadau ac ansicrwydd ein gobaith am ein dyfodol yn llaw Duw: 'Atebais innau, "O Arglwydd DDUW, ti sy'n gwybod."'

Cyhoeddi'r Gair

Ni alwyd y proffwyd i alw pwyllgor, i gomisiynu ymchwil, i drafod â'r esgyrn sychion ynglŷn â'u cyflwr a'u dyfodol. Gorchynnwyd Eseciel i 'broffwydo' – i gyhoeddi gair yr Arglwydd: 'Esgyrn sychion, clywch air yr ARGLWYDD' (adn 5–6). Ac, yn unol â Gair Duw, asiwyd yr esgyrn at ei gilydd (adn 7–8).

Addewid yr Arglwydd i'w bobl ym mhob oes yw na fydd ei air yn dychwelyd ato'n ddiffwrwyth, heb gyflawni'r hyn yr anfonwyd ef i'w gyflawni. Nid oes unrhyw fywyd yn bosib i'r eglwys y tu allan, y tu hwnt, na thrwy lastwreiddio neges rasol Gair Duw!

Yr ysbryd sy'n bywhau

Er y daeargryn, er y sŵn a'r cynnwrf, er rhyfeddod yr asio, cyrff heb fywyd oeddynt o hyd (adn 7).

Diffwrwyth yw'r gair heb ei Ysbryd. Ond pan chwyth yr Ysbryd ar ei eglwys, drwy ei air, daw anadl i'r 'lladdedigion'; codir byddin anorchfygol, fyw (adn 9–10). Nid gan Fabilon a'i gaethiwed a'i ddrwsych y ceir y gair olaf. Fe berthyn y dyfodol i'r Arglwydd a lefarodd, ac a dywalltodd ei Ysbryd Glân allan ar ein byd a chreu pobl iddo'i hun. Cafodd ei eglwys ei chyrchu 'o'r pedwar gwynt', o bob cwr o'r ddaear. Bwriad yr Arglwydd oedd galw ei bobl, i'w dwyn, o Fabilon eu caethiwed, i'w gwlad eu hunain.

Amcan yr Arglwydd, drwy ei Air, a thrwy ei Ysbryd, yw cynnull ei bobl i'r 'Jerwsalem newydd', lle mae ei bobl yn gweld ei wedd. Blaenffwrwyth hynny oedd tywalltiad yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost!

Gogoniant a gallu'r Arglwydd sydd yn y fantol. A rhyw ddydd, 'Byddwch yn gwybod mai myfi'r Arglwydd a lefarodd ac mai myfi a'i gwnaeth, medd yr Arglwydd.'

Dros ganrif yn ôl, mewn ymateb i'r marweidd-dra a welai, dywedodd y Deon Howel (a fu farw yn 1903) mai deffroad ysbrydol oedd unig obaith Cymru. Erys ei eiriau'n berthnasol i ninnau hefyd:

'Adfywiad Ysbrydol! Nid Diwygiad, ond Adfywiad; nid cynhyrriad lleol ... ond math o or-lan ysbrydol, yn gorlifo'r holl wlad, a wna'i drwytho pob dosbarth â Bedydd yr Ysbryd Glân ... Os oes y fath beth â gwirionedd rhwng cloriannau Gair Duw, yn ddi-os dyma fe, sef mai Ysbryd Duw yw unig ffynhonnell bywyd ysbrydol: nad oes modd cynhyrchu nac adfywio'r bywyd hwn trwy unrhyw foddion ar wahân oddi wrth offerynliaeth yr Ysbryd – "Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd."'

Beth am ddefnyddio Eryn 580, 'O Dduw, rho i'm dy Ysbryd', fel sail ein gweddi a'n hymateb i Dduw?

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru